helplu
helpforce

WcVA
CgGC

# Gwirfoddoli gyda'r GIG a'r ymateb i COVID-19

**I bwy y mae hwn yn berthnasol?**

Mae'r canllaw hwn ar gyfer staff sy'n rheoli gwirfoddolwyr o fewn y GIG yng Nghymru, mewn gofal sylfaenol neu eilaidd.

**Rhesymau dros y canllaw:**

Mae argyfwng diweddar COVID-19 yn debygol o effeithio ar wasanaethau iechyd am fisoedd lawer.

Mae'n debygol na fydd nifer o wirfoddolwyr yn gallu, neu yn dymuno, gwirfoddoli, er enghraifft os ydyn nhw neu'u teuluoedd yn agored i ddal yr haint.

Ar yr un pryd bydd pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd, gyda chynnydd tebygol mewn galw am wasanaethau gwirfoddolwyr yn ogystal â chyfleoedd newydd i wirfoddolwyr gyfrannu.

Bwriad Deddfwriaeth newydd yw ei gwneud yn haws i bobl wirfoddoli, er mwyn cynorthwyo i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal.

**Mewn sefyllfa o 'gyfyngiadau symud' a all pobl wirfoddoli?**
Gall gwirfoddoli barhau lle bo'n darparu cefnogaeth hanfodol i iechyd a llesiant pobl yn y gymuned neu'n cynnig cefnogaeth i'n gwasanaethau iechyd a gofal.

Disgwylir canllawiau pellach ynglŷn â'r hyn a olygir gan 'gwirfoddoli hanfodol' yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

**Gofal i wirfoddolwyr a lleihau lledaeniad yr haint**
Mae angen i rai gwirfoddolwyr roi'r gorau i wirfoddoli am y tro, ar sail eu hoed (dros 70 oed), cyflyrau iechyd isorweddol neu os ydynt yn arddangos symptomau'r ffliw Bydd eraill yn dewis rhoi'r gorau iddi dros dro.

Gallai adolygiad risg o wirfoddolwyr fod yn briodol, gan holi cwestiynau allweddol ynglŷn â pha mor agored i niwed ydyn nhw ac yn gofyn i'r rheiny sydd mewn perygl i 'oedi' eu gwirfoddoli. Gallai gwirfoddolwyr deimlo bod dyletswydd arnynt i barhau ac mae'n bosibl y bydd angen eich anogaeth chi arnynt i roi'r gorau iddi am y tro.

Dylai unrhyw wardiau sydd ar gau i ymwelwyr oherwydd Covid-10 fod ar gau i wirfoddolwyr hefyd.

Rhaid atgyfnerthu'r cyngor ar olchi dwylo, defnyddio hylif diheintio dwylo ag alcohol, glanhau dwys a glendid personol (e.e. ymgyrch 'catch it, bin it, kill it') yn ogystal â phwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol.

Dylid rhannu diweddariadau ar Covid-19 a gyfathrebir â staff ym mhob lleoliad â gwirfoddolwyr yn ogystal.

**Gwneud y gorau o wasanaeth gwirfoddolwyr**

Bydd rhai gwasanaethau gwirfoddolwyr yn cael eu hatal er mwyn osgoi cyswllt uniongyrchol â chleifion.

Gallai rhai gwasanaethau gael eu cwtogi yn syml oherwydd gostyngiad yn niferoedd gwirfoddolwyr neu o ganlyniad i gynnydd mewn blaenoriaethau mewn llefydd eraill. Os oes angen i chi gyfyngu ar wasanaethau gwirfoddolwyr dros dro mewn un maes gwasanaeth, gwëwch yn siŵr eich bod yn hysbysu staff yn glir o hyn.

Gallai rolau newydd neu rai sy'n parhau gynnwys:

Derbynfa/ desg wybodaeth, rhedwyr fferyllfa, PPE (ail-stocio cyfarpar diogelu personol, peiriannau hylif diheintio, masgiau), trafnidiaeth cleifion, gohirio ac aildrefnu apwyntiadau, cefnogaeth dros y ffôn a chefnogaeth yn y cartref ar ôl dychwelyd o'r ysbyty.

Mae rhai cydweithwyr GIG (yn Lloegr) yn creu rôl 'gwirfoddolwr ymateb' generig er mwyn i wirfoddolwyr allu ymateb mewn modd hyblyg. Gallai hyn gyd-fynd â chyflwyniad system gais ddyddiol am staff.

Hysbysebwch unrhyw rolau newydd ar wefan www.volunteering-wales.net, gan ddewis categori 'Covid-19', sy'n galluogi pobl i chwilio am rolau fel hyn heb drafferth. I'r fan hon y bydd cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio gwirfoddolwyr.

**Cynyddu'r gweithlu gwirfoddol**
Os oes angen mwy o wirfoddolwyr, mae angen ystyried sut y byddech yn galluogi recriwtio cyflym a mynediad o bell i hyfforddiant hanfodol. Gallai gwirfoddolwyr gael eu recriwtio o wahanol fannau:

- Y pwll gwirfoddoli presennol
- Cyn-wirfoddolwyr
- Gweithwyr o fudiadau corfforaethol lleol
- Prifysgolion a cholegau
- Staff wedi ymddeol
- Aelodau o'r cyhoedd

Mae deddfwriaeth coronafeirws newydd yn bwriadu cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal sydd ar gael a gostwng y nifer o dasgau gweinyddol sydd angen iddynt eu cwblhau. Mae newidiadau byrdymor wedi'u gwneud i ofynion GDG, er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio'n gynt, gan gynnwys newidiadau gwirio ID a rolau gweithgaredd a reoleiddir.

Bydd gan weithwyr yr hawl i gymryd cyfnodau o absenoldeb heb dâl er mwyn gwirfoddoli ac er mwyn derbyn peth iawndal ariannol mewn cydnabyddiaeth am y golled yn eu henillion. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cynigion i wirfoddoli gan aelodau o'r cyhoedd. Gallai archwiliad o sgiliau gwirfoddolwyr newydd a rhai sy'n gwirfoddoli eisoes hwyluso'r broses adleoli, gan gynnwys adnabod profiad a sgiliau proffesiynol gwirfoddolwyr a allai gael eu defnyddio'n effeithiol.

**Gweithio gyda mudiadau gwirfoddol**
Os bydd gwirfoddolwyr o fudiadau gwirfoddol allanol yn weithgar ar eich safle, efallai y byddwch am adolygu'r modd y mae'r gweithgareddau gwirfoddoli hyn yn cyd-fynd â'ch anghenion blaenoriaethol presennol ac os gallwch gydweithio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl gan wirfoddolwyr.

Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai mudiadau o'r fath recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd ar frys, yn ogystal â chymryd cyfrifoldeb dros gefnogi a goruchwylio gwirfoddolwyr.

Os nad oes capasiti nac isadeiledd ar gyfer recriwtio cyflym i wirfoddoli o fewn y GIG (neu fudiad gwirfoddol sy'n gweithredu o fewn y GIG), neu os nad oes modd i chi wneud defnydd o wirfoddolwyr o ganlyniad i bolisi bwrdd iechyd, gallwch gyfeirio ymholiadau at bartneriaid y sector gwirfoddol, y ganolfan gwirfoddolwyr lleol neu at wefan www.volunteering-wales.net. Defnyddiwch y linc hwn a sgroliwch i lawr y dudalen er mwyn gweld cyfleoedd gwirfoddoli cysylltiedig â COVID-19.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae diogelwch gwirfoddolwyr a chleifion o'r pwys mwyaf a dylai gwirfoddolwyr ym mhob lleoliad gael eu cefnogi a'u goruchwylio.

Gweler hefyd ganllawiau CGGC: - Ymateb cymunedol i Covid-19 galluogi ymarfer diogel ac effeithiol

**Gwybodaeth bellach**
Ceir llinyn fforwm ar-lein gweithredol sy'n trafod gwirfoddoli a Covid-19 ar Rwydwaith Helplu. Gallwch wneud cais i ymuno â'r llinyn yma neu e-bostio fliddell@wcva.cymru.

CGGC/Helplu Cymru
6 Ebrill 2020